Briff Ymchwil

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro - 08 Chwefror 2018

Paratowyd ar gyfer y Pwyllgor Materion Allanol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Nia Moss a Manon George**
Dyddiad: **Chwefror 2018**
Rhif Papur: **18-014**

## Cysylltwch â ni

**Nia Moss**
**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

: **0300 200 6313**
: **Nia.Moss@Cynulliad.Cymru**
: **seneddymchwil.blog**
: **@SeneddYmchwil**
: **Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Negodiadau ynghylch Ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd: Adroddiad Monitro - 08 Chwefror 2018

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Gwasanaeth Ymchwil

# 1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf, ers 17 Ionawr, am ddatblygiadau sy'n ymwneud â Thrafodaethau Erthygl 50 ynghylch penderfyniad y DU i adael yr Undeb Ewropeaidd. Ers paratoi'r fersiwn ddiwethaf o'r adroddiad hwn, mae'r Cyngor Ewropeaidd wedi cytuno ar ei gyfarwyddebau trafod ar gyfer y cyfnod gweithredu. Mae'r trafodaethau rhwng yr UE a'r DU yn parhau yn achos rhai elfennau o'r Cytundeb Ymadael a'r cyfnod pontio.

Mae'r papur hwn yn rhoi:

– Crynodeb o'r datblygiadau, y dogfennau a'r ddeddfwriaeth ddiweddaraf a gyhoeddwyd;

– Dadansoddiad o'r materion allweddol sydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol ("y Pwyllgor");

– Crynodeb o ymateb Llywodraeth Cymru i'r datblygiadau diweddaraf.

## Crynodeb o'r datblygiadau

Rhwng 17 Ionawr a 6 Chwefror, **cyhoeddodd tasglu Erthygl 50 y Comisiwn Ewropeaidd** gyfres o sleidiau o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd gan Weithgor Anffurfiol y Cyngor Ewropeaidd yn dangos y paratoadau mewnol ar gyfer y berthynas yn y dyfodol. Roedd y sleidiau'n dangos y prif faterion roedd y Comisiwn Ewropeaidd a'r Cyngor yn eu trafod mewn perthynas â'r cytundeb ar y Berthynas â'r DU yn y Dyfodol. Mae'r rhain yn cynnwys gwybodaeth am yr opsiynau a'r materion yn ymwneud â chytundebau ar bysgodfeydd, hedfan, llywodraethu a chydweithredu ym maes diogelwch ac amddiffyn.

Ar 18 Ionawr, cynhaliwyd yr ail Fforwm Rhyngseneddol ar Brexit. Mae'r Fforwm yn cynnwys pwyllgorau seneddol o Gymru, yr Alban, Tŷ'r Arglwyddi a Thŷ'r Cyffredin sy'n gweithio ar Ynddo, nodwyd bod gan Senedd yr Alban a Chynulliad Cenedlaethol Cymru bryderon cryf ynghylch Bil yr UE (Ymadael) ac anogodd Llywodraeth y DU i ystyried safbwyntiau pawb wrth i'r Bil fynd drwy Dŷ'r Arglwyddi.

Ar 24 Ionawr 2018 rhoddodd David Davis, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE, **dystiolaeth am hynt y trafodaethau pan ymddangosodd gerbron Pwyllgor Ymadael â'r UE yn Nhŷ'r Cyffredin**.

Ar 24 Ionawr, cynhaliodd **Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol** Senedd Ewrop sesiwn i drafod y datblygiadau diweddaraf yn nhrafodaethau Brexit gyda Guy Verhofstadt ASE, cydgysylltydd Brexit y Senedd a Danuta Hübner ASE, aelod o Grŵp Llywio Brexit.

Ar 26 Ionawr, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE **araith** am flaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer y cyfnod pontio. Dywedodd y byddai'r DU yn cadw at reolau'r UE yn ystod y cyfod pontio ond roedd hefyd am i'r DU fedru trafod a llofnodi cytundebau masnach yn ystod y cyfnod hwn.

Ar 26 Ionawr, ysgrifennodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â UE, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes a'r Canghellor **lythyr agored** at fusnesau'n ymwneud â'r cyfnod pontio.

Ar 29 Ionawr, cytunodd y Cyngor Ewropeaidd ar ei **gyfarwyddebau trafod ar gyfer y cyfnod pontio.** Yn ôl y canllawiau, os yw'r DU am barhau i fedru manteisio ar y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau yn ystod y cyfnod pontio, byddai'n rhaid iddi gadw at holl reolau a deddfau'r UE yn ystod y cyfnod hwnnw.

Ar 29 Ionawr, **rhoddodd David Davis dystiolaeth i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Cyffredin am hynt y trafodaethau**.

**Gofynnodd Kier Stamer, Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Ymadael â'r UE, gwestiwn brys** yn Nhŷ'r Cyffredin ar 30 Ionawr am yr adroddiad a gyhoeddodd **BuzzFeed News** am ddadansoddiad economaidd Llywodraeth y DU. Cafodd Aelodau Seneddol weld yr adroddiad ar 7 Chwefror.

Ar 30-31 Ionawr **cafodd y Bil Ymadael ei ail ddarlleniad** yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Ar 2 Chwefror, cyhoeddodd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad ei adroddiad ar drefniadau **llywodraethu'r DU ar ôl ymadael â'r UE**.

Ar 5 Chwefror, cyhoeddodd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol ei adroddiad ar ymateb gweinyddol ac ariannol Llywodraeth Cymru i Brexit, sef **Sut y mae Llywodraeth Cymru yn paratoi ar gyfer Brexit?** Mae'r adroddiad yn cynnwys saith o argymhellion, gan gynnwys yr angen i Lywodraeth Cymru fynd ati ar fyrder i archwilio goblygiadau tebygol y senarios posibl yn dilyn Brexit, gan gynnwys y posibilrwydd na fydd cytundeb o gwbl.

Ar 5 Chwefror, aeth Michel Barnier, sy'n cynrychioli'r UE yn y trafodaethau, i Stryd Downing i weithio dros ginio gyda'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE , cyn i'r ddwy ochr gyfarfod eto **i gynnal trafodaethau technegol ffurfiol** rhwng 6 a 9 Chwefror. Rhyddhawyd **datganiadau i'r wasg** yn dilyn y cinio.

Ar 5 Chwefror, daeth **Pwyllgor Gweinyddiaeth Gyhoeddus a Materion Cyfansoddiadol** Tŷ'r Cyffredin i'r Cynulliad i gynnal sesiynau tystiolaeth fel rhan o'i ymchwiliad i Brexit a Datganoli. Clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Brif Weinidog Cymru, arweinwyr y gwrthbleidiau yng Nghymru, Llywydd y Cynulliad a Mick Antoniw AC, Cadeirydd Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol y Cynulliad.

Ar 7 Chwefror, cyhoeddodd y Comisiwn Ewropeaidd '***Position Paper Transitional Arrangements in the Withdrawal Agreement***'. Mae'r papur hwn yn cynnwys cyfres o gymalau neu erthyglau cyfreithiol arfaethedig i'w cynnwys mewn Cytundeb Ymadael a fyddai'n llywodraethu hawliau ac ymrwymiadau'r DU yn ystod y cyfnod pontio.

Ar 7-8 Chwefror, cynhaliwyd cyfarfod o Gabinet Llywodraeth y DU i drafod blaenoriaethau'r Llywodraeth o ran ei pherthynas â'r UE yn y dyfodol.

# Y datblygiadau diweddaraf a'r dogfennau a gyhoeddwyd

## Trafodaethau

Ar 26 Ionawr, rhoddodd David Davis, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE **araith yn Teesport** am flaenoriaethau Llywodraeth y DU ar gyfer y cyfnod pontio wedi i'r DU ymadael â'r UE. Yn ei araith, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol mai dim ond am gyfnod penodedig y byddai'r cyfnod pontio yn para a hynny'n seiliedig ar yr amser a gymer i'r DU baratoi i ymadael. Dywedodd y byddai'r DU yn cadw at holl reolau a rheoliadau presennol yr UE yn ystod y cyfnod pontio ac y byddai Llys Cyfiawnder Ewrop yn parhau i fod â rhan yn y broses o oruchwylio'r rheolau hynny yn ystod y cyfnod pontio. Dywedodd y byddai'r cyfnod pontio'n caniatáu i'r DU roi'r seilwaith a'r systemau angenrheidiol ar waith. Roedd Llywodraeth y DU o'r farn, meddai, y byddai'r DU yn gallu cynllunio system fewnfudo newydd yn ystod

y cyfnod pontio ac y byddai'n gallu trafod a llofnodi cytundebau masnach newydd yn ffurfiol, er na fyddai'r cytundebau'n dod i rym tan ddiwedd y cyfnod pontio. Ni fyddai'r DU yn aelod o'r UE yn ystod y cyfnod pontio ac ni fyddai'n aelod o'i sefydliadau. Roedd yn credu y byddai'r DU yn dod i gytundeb â'r UE ynghylch y cyfnod pontio erbyn cyfarfod y Cyngor Ewropeaidd ym mis Mawrth.

Ar 29 Ionawr, mabwysiadodd y Cyngor Ewropeaidd ei **gyfarwyddebau trafod** ar gyfer y cyfnod pontio, gan ganiatáu i Michel Barnier ddechrau trafod y mater hwn gyda'r DU ar ran yr UE. Yn y cyfarwyddebau, dywedodd y Cyngor na fyddai'r DU yn gallu trafod telerau gwahanol ar gyfer sectorau gwahanol yn ystod y cyfnod pontio, fel roedd Llywodraeth y DU wedi'i awgrymu. Daeth y Cyngor i'r casgliad y byddai angen i'r DU gadw at holl reolau a rheoliadau'r UE os oedd am barhau i fanteisio ar y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau, ac y byddai unrhyw ddeddfau newydd y byddai'r UE yn eu mabwysiadu yn ystod y cyfnod pontio hefyd yn gymwys i'r DU er na fyddai'r DU yn aelod ffurfiol o'r UE a'i sefydliadau. Mae'r cyfarwyddebau'n nodi y dylai'r DU gadw at bolisi masnach yr UE ac na ddylai fedru trafod unrhyw gytundebau masnach newydd heb gael caniatâd yr UE ymlaen llaw i wneud hynny. Dywedodd y Cyngor ei fod am weld y cyfnod pontio'n dod i ben erbyn 31 Rhagfyr 2020.

Ar hyn o bryd, mae gan yr UE nifer o gytundebau masnach â gwledydd trydydd parti fel Canada a De Korea ac mae'r DU hefyd yn manteisio ar y rhain drwy fod yn aelod o'r UE. Wrth siarad mewn **cynhadledd i'r wasg** ar ôl mabwysiadu'r cyfarwyddebau trafod, dywedodd Michel Barnier y byddai'r UE yn fodlon i'r DU barhau i fanteisio ar y cytundebau hyn yn ystod y cyfnod pontio ond, yn ystod y cyfnod hwnnw, byddai angen i'r DU ddod i gytundeb ar wahân gyda'r gwledydd trydydd parti hyn.

Yn ei **dystiolaeth i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar yr UE** ar 29 Mawrth, rhoddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE ragor o wybodaeth am ei farn am y cyfnod gweithredu, trefn y trafodaethau a sut y byddai unrhyw gytundeb yn cael ei gadarnhau yn y DU. Dywedodd eto ei fod yn credu y byddai'r trafodaethau ynghylch y cyfnod pontio'n cael eu cwblhau erbyn mis Mawrth a dywedodd hefyd ei fod yn disgwyl i'r Cyngor Ewropeaidd gyhoeddi ei ganllawiau trafod ar gyfer y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol. Roedd yn disgwyl i'r holl drafodaethau ddod i ben erbyn mis Hydref 2018. Cyn gynted ag y byddai Senedd y DU wedi dod i gytundeb â'r UE, meddai, byddai pleidlais yn cael ei chynnal ar y cytundeb. Cyhyd ag y bo'r Senedd yn pleidleisio o blaid y cytundeb, byddai Llywodraeth y DU yn cyflwyno Bil Ymadael a Gweithredu a fyddai'n cadarnhau'r cytundeb. Dywedodd na fyddai 'n dymuno llofnodi Cytundeb Ymadael heb wybod beth fyddai natur y berthynas yn y dyfodol.

O ran partneriaeth yn y dyfodol, roedd yr Ysgrifennydd Gwladol o'r farn y byddai 20-40 o feysydd trafod ac y byddai'r rhain yn arwain at nifer o gytundebau a chytuniadau gwahanol, er enghraifft, cytundeb Masnach Rydd, cytundeb pysgodfeydd, cytundeb data, cytundeb diogelwch a chytundeb diogelwch ac amddiffyn. O ran deddfau newydd yr UE y byddai disgwyl iddynt fod yn gymwys i'r DU yn ystod y cyfnod pontio, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol na fyddai hynny'n broblem fawr o ystyried faint y mae'n ei gymryd, ar gyfartaledd, i'r UE gytuno ar ddeddfau newydd. Hynny yw, ni fyddai rhyw lawer o ddeddfau newydd yn cael eu pasio yn ystod y cyfnod pontio na fyddai'r DU wedi cael rhoi ei barn arnynt cyn y bydd yn gadael yr UE y flwyddyn nesaf.

Ar 29 Ionawr **cyhoeddodd BuzzFeed News** fod dadansoddiad economaidd gan Lywodraeth y DU, a ddatgelwyd yn answyddogol, yn dangos sut y byddai economi'r DU yn gwanhau mewn gwahanol sefyllfaoedd ar ôl gadael yr UE. Gofynnodd Kier Starmer AS, Ysgrifennydd Gwladol yr Wrthblaid dros Ymadael â'r UE **gwestiwn brys** yn Nhŷ'r Cyffredin yn y cyswllt hwn ar 30 Ionawr. Wrth ymateb i'r cwestiwn , dywedodd Steve Barker, yr Is-ysgrifennydd Seneddol dros Ymadael â'r UE , nad oedd y

Cabinet wedi cymeradwyo'r ddogfen dan sylw ac mai 'dehongliad dethol' o ddadansoddiad cychwynnol oedd hi.

Ar 5 Chwefror, daeth Michel Barnier, sy'n cynrychioli'r UE yn y trafodaethau, i Stryd Downing i weithio dros ginio gyda'r Prif Weinidog a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE. Yn dilyn y cinio, rhyddhaodd Mr Barnier **ddatganiad i'r wasg** gan ddweud bod angen bwrw ymlaen â thair agwedd ar y trafodaethau: roedd angen i'r ddwy ochr fwrw ymlaen â'r gwaith o droi'r Adroddiad ar y Cyd y cytunwyd arno fis Rhagfyr 2017 yn destun cyfreithiol; byddai angen i'r DU dderbyn bod unrhyw gyfnod pontio'n amodol ar gadarnhau'r Cytundeb Ymadael ac y byddai'n rhaid i'r DU gytuno i gadw at holl reolau'r UE; ac roedd angen i'r DU esbonio'r math o bartneriaeth roedd am ei chael yn y dyfodol. Eglurodd Mr Barnier fod yr UE o'r farn na fyddai modd osgoi gosod rhwystrau i brynu a gwerthu nwyddau a gwasanaethau pe bai'r DU yn gadael y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau. Roedd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE wedi dweud yn ei ddatganiad fod dymuniadau'r DU eisoes yn glir: roedd am gael Cytundeb Masnach Rydd cynhwysfawr ac roedd eisoes wedi cyhoeddi nifer o bapurau sefyllfa ar faterion fel tollau.

Parhau wnaeth y trafodaethau rhwng yr UE a'r DU rhwng 6 a 9 Chwefror ynghylch rhai agweddau ar y Cytundeb Ymadael, Iwerddon a Gogledd Iwerddon a'r cyfnod gweithredu. Cyhoeddwyd **agenda** ar gyfer y cylch hwn o drafodaethau.

Ers 17 Ionawr, mae Tasglu Erthygl 50 Comisiwn yr UE wedi bod yn **cyhoeddi cyfres o gyflwyniadau** fel rhan o drafodaethau paratoadol anffurfiol y Cyngor Ewropeaidd ynghylch ei flaenoriaethau o ran y berthynas â'r DU yn y dyfodol. Er nad yw'r sleidiau'n cyflwyno safbwynt terfynol yr UE mewn unrhyw fodd, maent yn ddefnyddiol o ran rhoi syniad o'r materion y mae'r UE yn eu hystyried fel rhan o'r gwaith hwn. Mae sleidiau ar gael ar gytundebau a masnach ryngwladol, gwasanaethau, sicrhau amodau teg a chyfartal, diogelwch, amddiffyn a pholisi tramor, polisi a chydweithrediad barnwrol, llywodraethu, pysgodfeydd a hedfan.

## Deddfwriaeth y DU

Ar 25 Ionawr, cafodd y **Bil Sancsiynau ac Atal Gwyngalchu Arian**, sy'n angenrheidiol os yw'r DU am roi sancsiynau rhyngwladol ar waith ar ôl gadael yr UE, ei ddarlleniad cyntaf yn Nhŷ'r Cyffredin, a hynny ar ôl cwblhau'r holl gamau angenrheidiol yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 24 Ionawr. Bydd yr Ail Ddarlleniad ar 20 Chwefror.

Ar 1 Chwefror, cwblhaodd Pwyllgor Bil Cyhoeddus Tŷ'r Cyffredin ei waith ar y **Bil Masnach** a chyflwynwyd y Bil i'r Tŷ heb unrhyw welliannau. Nid yw dyddiad y cyfnod adrodd wedi'i gyhoeddi eto. Daeth dadl pwyllgor Tŷ'r Cyffredin ar y **Bil Trethiant (Masnach Drawsffiniol)** hefyd i ben ar 1 Chwefror. Unwaith eto, argymhellodd Pwyllgor y Bil Cyhoeddus, y dylid cyflwyno'r Bil heb welliannau. Bwriedir i'r Bil hwn, ynghyd â'r Bil Masnach, ganiatáu i'r DU barhau â'i pholisi masnach presennol cyhyd ag y bo modd ar ôl gadael yr UE drwy ganiatáu i'r Llywodraeth greu cyfundrefn tollau, TAW a chyllid ar gyfer y DU. Ym mis Ionawr 2018, cynigiodd Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban welliannau ar y cyd i'r Bil Masnach. Cyflwynwyd y rhain gan yr SNP ym Mhwyllgor y Bil Cyhoeddus ond gwrthodwyd pob un ohonynt .

Cafodd **Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** ei ail ddarlleniad yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 30 a 31 Ionawr. Mae'r Bil yn dirymu Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972; yn darparu na fydd cyfraith yr UE yn gymwys bellach yn y DU; ac yn troi'r rhan fwyaf o gyfreithiau'r UE yn gyfreithiau domestig. Trafododd 195 o siaradwyr brif egwyddorion a phrif ddibenion y Bil dros gyfnod o ddeuddydd. Disgwylir i Gyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ddechrau ar 21 Chwefror ac y bydd yn para am 10 diwrnod. Ni chafwyd unrhyw welliannau i Gymal 11 sy'n gosod cyfyngiadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y deddfwrfeydd

datganoledig yn ystod y Cyfnod Pwyllgor a'r cyfnod Adrodd yn Nhŷ'r Cyffredin. Fodd bynnag, derbyniwyd gwelliannau Llywodraeth y DU i Gymal 10 i newid y gofyniad i Weinidogion Cymru ofyn am ganiatâd Gweinidogion y DU i arfer y pŵer cywiro i ofyniad ymgynghori a hefyd i alluogi Gweinidogion Cymru i gywiro diffygion yng nghyfraith yr UE a gadwyd, ond dim ond mewn meysydd lle nad oes angen fframwaith cyffredin. Ar 16 Ionawr, **ysgrifennodd Ysgrifennydd Gwladol Cymru at y Llywydd** yn cadarnhau ymrwymiad Llywodraeth y DU i ddiwygio Cymal 11 yn Nhŷ'r Arglwyddi.

Ar 29 Ionawr, cyhoeddodd Pwyllgor Cyfansoddiad Tŷ'r Arglwyddi adroddiad ar **Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** a daeth i'r casgliad nad yw'r Bil, fel y'i drafftiwyd, yn dderbyniol yn gyfansoddiadol. Ar 1 Chwefror, cyhoeddodd Pwyllgor Pwerau Dirprwyedig a Diwygio Rheoleiddio Tŷ'r Arglwyddi hefyd adroddiad ar **Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael)** a oedd yn beirniadu'r ffaith na fu digon o waith craffu yn y Senedd ar y pŵer i wneud rheoliadau a ddirprwywyd i Weinidogion.

## Dogfennau a Phapurau Sefyllfa

Ers cyhoeddi'r adroddiad monitro diwethaf, mae'r UE wedi cyhoeddi ei gyfarwyddebau trafod ar gyfer y cyfnod pontio, papur sefyllfa ar gymalau posibl i'w cynnwys yn y Cytundeb Ymadael a chyfres o gyflwyniadau a wnaed fel rhan o'r trafodaethau mewnol anffurfiol ynghylch ei pherthynas â'r DU yn y dyfodol. Mae'r rhain wedi'u hychwanegu at y tabl isod.

**Tabl 1 Papurau Sefyllfa a dogfennau allweddol a gyhoeddwyd gan yr Undeb Ewropeaidd a'r DU**

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| **Essential Principles on Citizens Rights**<br>29 Mai 2017 i UE 27<br>12 Mehefin i'r DU | Yn amlinellu sefyllfa'r Undeb Ewropeaidd ar hawliau dinasyddion y DU yn yr Undeb Ewropeaidd a hawliau dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn y DU. | **Safeguarding the position of EU citizens in the UK and UK nationals in the EU: Position Paper**<br>**26 Mehefin 2017** | Yn amlinellu sefyllfa'r DU ar yr hawliau y dylai dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd eu cael yn y DU a'r hawliau y dylai gwladolion y DU eu cael yn yr Undeb Ewropeaidd. Gweler blog y Gwasanaeth Ymchwil i gael rhagor o fanylion. |
| **Essential Principles on the financial settlement**<br>29 Mai 2017 i UE 27<br>12 Mehefin i'r DU | Yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer methodoleg y dylid cytuno arni yn ystod trafodaethau Cam 1 ar sut y dylid cyfrifo rhwymedigaethau ariannol y DU i'r Undeb Ewropeaidd. Mae Atodiad 1 yn cynnwys rhestr o asiantaethau, cyrff ac offerynnau ariannol i'w cynnwys yn y fethodoleg. | Dim | Mae Ysgrifennydd Gwladol y DU ar gyfer DEXEU wedi amlinellu y bydd y DU yn cwestiynu sefyllfa'r Undeb Ewropeaidd yn hytrach nag amlinellu ei sefyllfa ei hun. |
| **Nuclear material and safeguard equipment (Euratom)**<br>23 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf i'r DU | Yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer trin a throsglwyddo perchnogaeth deunyddiau ymholltog arbennig. Mae'n cwmpasu llai o feysydd nag a gynigiwyd gan y DU mewn papur cyfatebol. | **Nuclear material and safeguards issues.** | Mae Llywodraeth y DU yn nodi chwe egwyddor y mae am i'r trafodaethau ar y materion hyn eu cyflawni. Mae'n cynnwys meysydd ychwanegol at y meysydd a gaiff eu cynnwys gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan gynnwys contractau cyfredol ar gyfer cyflenwi deunydd niwclear |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | a gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol. Mae'r DU yn nodi y dylai gweddillion tanwydd a gwastraff ymbelydrol barhau i fod yn gyfrifoldeb y Wladwriaeth lle y cawsant eu cynhyrchu ar ôl ymadawiad y DU o'r Undeb Ewropeaidd. |
| **Judicial cooperation in civil and commercial matters**<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf i'r DU | Yn amlinellu cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion sy'n aros am ddedfryd pan fydd y DU yn ymadael. | **Providing a cross-border civil judicial framework: a future partnership paper**<br>22 Awst 2017 | Mae Llywodraeth y DU wedi nodi ei sefyllfa ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn gymwys i achosion sy'n aros am ddedfryd ar yr adeg y bydd y DU yn ymadael, a chynigion ar gyfer cydweithredu parhaus yn y maes hwn mewn un papur. Mae'r papur yn nodi bod Atodiad A yn ymateb yn uniongyrchol i bapur yr Undeb Ewropeaidd ac yn nodi blaenoriaethau Llywodraeth y DU os na chytunir ar y bartneriaeth ar gyfer y dyfodol. Mae'n nodi nad dim cytundeb ar gydweithredu yn y dyfodol yw ei ddewis. Mae'r papur yn nodi hefyd y bydd gadael yr Undeb Ewropeaidd yn dod ag |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
| --- | --- | --- | --- |
| | | | awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop i ben, ond y bydd y DU yn ceisio dod i gytundeb â'r Undeb Ewropeaidd a fydd yn caniatáu cydweithredu barnwrol sifil trawsffiniol clos a chynhwysfawr. |
| **Ongoing Police and Judicial cooperation in criminal matters**<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf i'r DU | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a fydd yn cymhwyso gweithdrefnau parhaus fel, gorchmynion ymchwilio Ewropeaidd a gweithdrefnau Gwarantau Arestio Ewropeaidd ar y dyddiad y bydd y DU yn ymadael, a sut y bydd y wybodaeth a geir drwy'r gweithdrefnau hyn yn cael ei thrin. | **Security law enforcement and criminal justice: Future Partnership Paper** | Mae Atodiad A o'r papur yn darparu ymateb uniongyrchol i'r materion a godwyd gan yr Undeb Ewropeaidd yn ei bapur yntau. Fodd bynnag, mae'r DU yn argymell y dylid cynnal trafodaethau ar faterion troseddol a fydd yn codi yn sgîl ymadael yng nghyd-destun trafodaethau ar bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn galw am berthynas ddyfnach a chydweithrediad ar faterion yn ymwneud â gorfodi'r gyfraith a chyfiawnder troseddol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd na'r hyn sydd gan yr Undeb Ewropeaidd gyda gwledydd trydydd parti ar hyn o bryd. Noda y dylid ei ddarllen ar y cyd â phapurau eraill ar y bartneriaeth |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | yn y dyfodol yn ymwneud â diogelwch a diogelu data. |
| **Ongoing Union and Judicial Procedures**<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf i'r DU | Yn amlinellu'r cynigion ar gyfer rhoi gweithdrefnau ar waith ar gyfer achosion gerbron Llys Cyfiawnder Ewrop sy'n ymwneud â'r DU neu drigolion/personau cyfreithiol y DU ar adeg ymadael, a chynigion ar gyfer gweithdrefnau gweinyddol parhaus o ran sefydliadau'r Undeb, cyrff, swyddfeydd ac asiantaethau sy'n ymwneud â'r DU neu drigolion/personau cyfreithiol y DU. Cynigiodd yr UE y dylai'r Llys Cyfiawnder Ewropeaidd gadw rhywfaint o gymhwysedd i ddyfarnu mewn achosion a ddygir yn erbyn y DU ar ôl iddi ymadael sy'n ymwneud â materion a ddigwyddodd pan oedd y DU yn dal i fod yn Aelod-wladwriaeth. | **Ongoing union judicial and administrative proceedings: Position Paper**.<br>**13 Gorffennaf 2017** | Mae Llywodraeth y DU yn cydnabod y bydd rhai achosion yn aros am ddedfryd ar yr adeg y bydd yn ymadael a ddylai barhau i ddod o fewn awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop, ac mae'n ceisio cael cytundeb ar feini prawf ynghylch y diffiniad o 'aros am ddedfryd'. Mae hefyd yn gofyn am eglurhad o rôl Eiriolwr Cyffredinol y DU a chyfreithwyr y DU yn y Llys yn ystod cyfnod trosiannol tra bod achosion yn dal i aros am ddedfryd. Nid yw'n cytuno y dylai Llys Cyfiawnder Ewrop gadw rhywfaint o gymhwysedd dros achosion a ddygwyd ar ôl y dyddiad ymadael yn ymwneud â phethau a ddigwyddodd cyn y dyddiad ymadael. |
| **Issues relating to the functioning of EU Institutions, Agencies and Bodies**<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn nodi sefyllfa'r UE ar ba amddiffyniadau ac imiwneddau a fydd yn berthnasol i sefydliadau ac asiantaethau'r Undeb Ewropeaidd yn y DU ar ôl iddi | **Privileges and Immunities**<br>**13 Gorffennaf 2017** | Mae papur sefyllfa'r DU yn cytuno y dylid cynnig amddiffyniadau ac imiwneddau i eiddo, asedau a gweithrediadau'r Undeb Ewropeaidd yn y DU am |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | ymadael tra bod gweithgareddau cyrff yr Undeb Ewropeaidd yn y DU yn cael eu dirwyn i ben. | | gyfnod trosiannol ar ôl iddi ymadael. Mae'r rhai sy'n trafod ar ran y ddwy ochr wedi nodi eu bod yn agos at gyrraedd cytundeb ar y mater hwn. |
| **Governance**<br>29 Mehefin 2017 i UE 27<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn amlinellu cynigion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer mecanwaith datrys anghydfodau ar gyfer y Cytundeb Ymadael, gan gynnwys sefydlu Cyd-bwyllgor i ystyried anghydfodau. Dywed y dylai'r Cyd-bwyllgor gyfeirio achosion at Lys Cyfiawnder Ewrop am benderfyniadau rhwymol pan na ellir dod i gytundeb yn y Pwyllgor. Noda y dylai'r Comisiwn Ewropeaidd gadw pwerau llawn ar gyfer monitro a gweithredu'r cytundeb ar hawliau dinesydd. | **Enforcement and Dispute resolution: Future Partnership Paper**<br><br>**23 Awst 2017** | Mae'r Papur yn cynnwys cynigion ar gyfer mecanwaith gorfodi a datrys anghydfodau newydd ar gyfer y Cytundeb Ymadael ac unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r papur yn nodi y bydd angen mecanwaith newydd gan y bydd awdurdodaeth Llys Cyfiawnder Ewrop yn dod i ben. Safbwynt y DU yw, pan fo'r Cytundeb Ymadael neu unrhyw drefniadau partneriaeth yn y dyfodol yn arwain at hawliau neu rwymedigaethau ar gyfer unigolion a busnesau sy'n gweithredu yn y DU, bydd y rhain yn dod i rym yng nghyfraith y DU ac yn cael eu gorfodi gan lysoedd y DU. Mae'r papur sefyllfa yn dadlau nad oes cynsail na gorfodaeth yng nghyfraith yr Undeb Ewropeaidd na'r DU sy'n |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | datgan bod yn rhaid i orfodi neu ddatrys anghydfod ddod o dan awdurdodaeth uniongyrchol Llys Cyfiawnder Ewrop. |
| **Goods placed on the market under Union law before the withdrawal date**<br>29 Mehefin 2017 i'r UE<br>13 Gorffennaf 2017 i'r DU | Mae'r papur yn nodi'r cynigion ar gyfer y gweithdrefnau a ddylai fod yn gymwys i nwyddau sy'n cydymffurfio â holl reolau'r Undeb ac yn cael eu rhoi ar y farchnad i'w gwerthu cyn y dyddiad ymadael ond nad ydynt wedi'u gwerthu ar y dyddiad ymadael. | **Continuity in the availability of goods for the EU and the UK**<br>**21 Awst 2017**<br><br>**Future customs arrangements: Future Partnership Paper**<br>**15 Awst 2017** | Mae Llywodraeth y DU yn datgan y dylid datrys y mater hwn o ran unrhyw bartneriaeth yn y dyfodol. Mae'r DU yn gofyn am drafodaeth bellach ar ystyr "rhoi ar y farchnad" ac mae'n awgrymu y dylai gynnwys gwasanaethau sy'n gysylltiedig â chyflenwi nwyddau. |
| **Customs related matters needed for an orderly withdrawal of the UK from the Union**<br>7 Medi 2017 i EU 27 | Cynigion ar gyfer y gweithdrefnau tollau a ddylai fod yn berthnasol i nwyddau y mae eu symudiad wedi dechrau cyn y dyddiad ymadael ond sy'n dod i ben ar y dyddiad hwnnw neu ar ôl hynny. | **Continuity in the availability of goods for the EU and the UK: Position Paper**<br>**21 Awst 2017**<br>**Future customs arrangements: Future Partneriaeth Paper**<br>**15 Awst 2017** | Mae papur sefyllfa'r DU ar barhad argaeledd nwyddau yn cydnabod y bydd angen mynd i'r afael â materion tollau sy'n ymwneud â nwyddau ar y farchnad ar adeg ymadael, ond mae'n gwneud hynny mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer perthynas dollau yn y dyfodol ac yn nodi y dylid mynd i'r afael â'r mater drwy drafodaethau am bartneriaeth yn y dyfodol. |
| **Guiding Principles transmitted to EU 27 for the Dialogue on Ireland/Northern** | Egwyddorion sy'n sail i drafodaethau am y berthynas rhwng Iwerddon a Gogledd | **Northern Ireland and Ireland: Position Paper**<br>16 Awst 2017 | Mae'r papur sefyllfa yn nodi y dylai'r Ardal Deithio Gyffredin rhwng Iwerddon a'r DU barhau, y |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| **Ireland.**<br>7 Medi i EU 27 | Iwerddon. Ni chynigir unrhyw ddatrysiadau ar gyfer ffin Iwerddon ac mae'r papur yn rhoi'r cyfrifoldeb ar y DU i gynnig atebion. | | dylid gwneud cynnydd cyflym ar y mater ac na effeithir ar hawliau dinasyddion yr UE yn Iwerddon gan barhad yr Ardal Deithio Gyffredin. Nid yw'r papur yn cynnig opsiynau penodol ar gyfer y ffiniau tir ond mae'n nodi egwyddorion i brofi modelau yn eu herbyn. Mae'n croesgyfeirio at gynigion Llywodraeth y DU ar gyfer trefniadau tollau yn y dyfodol. Noda na ddylai unrhyw ateb y cytunir arno ei gwneud yn ofynnol i gael ffiniau tollau newydd rhwng Gogledd Iwerddon a Phrydain Fawr. Gwna gynigion penodol ar gynhyrchion bwyd-amaeth. Awgryma y dylid cael cytundeb i barhau â chyllid PEACE ar gyfer Gogledd Iwerddon a siroedd ffiniol Iwerddon. |
| **Public Procurement**<br>7 Medi i EU 27 | Cynigion ar gyfer y rheolau a'r gweithdrefnau ar gaffael cyhoeddus a ddylai fod yn gymwys i weithdrefnau caffael a chontractau sy'n parhau ar y dyddiad ymadael. | Dim | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | |
| **Intellectual Property Rights (including geographical indications)**<br>7 Medi 2017 i EU 27 | Cynigion ar gyfer parhau i ddiogelu hawliau eiddo deallusol y cytunwyd arnynt cyn y dyddiad ymadael, gan gynnwys diogelu enwau bwyd gwarchodedig. Mae'r Undeb Ewropeaidd yn awgrymu y bydd angen i ddeddfwriaeth ddomestig newydd gael ei sefydlu yn y DU cyn y dyddiad ymadael mewn perthynas ag enwau bwyd gwarchodedig. | Dim | |
| **Use of Data and Protection of Information Obtained or Processed before the Withdrawal Date**<br>7 Medi i EU 27 | Cynigion ynglŷn â'r rheolau a'r amddiffyniadau cyfatebol a ddylai fod yn berthnasol i ddata a gedwir neu a brosesir yn y DU a'r Undeb Ewropeaidd ar ôl y dyddiad ymadael. | **Confidentiality and access to documents: Position Paper 21 Awst 2017** | Mae'r papur yn nodi mai'r nod ddylai fod i'r Cytundeb Ymadael sicrhau bod gan y DU a'r Undeb Ewropeaidd amddiffyniadau a rhwymedigaethau cyfatebol ar wybodaeth a mynediad at ddogfennau fel sy'n bodoli ar hyn o bryd o dan ddeddfwriaeth bresennol yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim | | **Future Customs Arrangements: Future partnership paper**<br>15 Awst 2017 | Mae'r papur sefyllfa yn cynnig dau ddewis posibl ar gyfer perthynas dollau yn y dyfodol. Trefniant tollau wedi'i symleiddio'n sylweddol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd neu bartneriaeth tollau newydd |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | gyda'r Undeb Ewropeaidd lle byddai'r DU yn cysoni ei ffin â'r Undeb Ewropeaidd mewn ffordd sy'n golygu y byddai'n dileu'r angen am ffiniau tollau rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd. Byddai'r DU yn gadael yr undeb tollau ac yn gallu trafod ei chytundebau masnach ei hun o dan y ddau opsiwn.<br>O dan yr ail opsiwn, mae'r papur sefyllfa yn cynnig y byddai'r DU yn adlewyrchu gofynion yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer nwyddau o weddill y byd os mai'r Undeb Ewropeaidd yw'r gyrchfan derfynol. Noda y byddai hyn yn ddigynsail a gallai fod yn heriol i'w weithred, ond mae am ei drafod â'r Undeb Ewropeaidd.<br>Mae'r papur yn cynnig model cyfyngedig o ran amser ar gyfer cysylltiad agos ag undeb Tollau yr Undeb Ewropeaidd am gyfnod trosiannol, er mwyn osgoi sefyllfa 'ymyl clogwyn' i fusnesau ac unigolion ar y ddwy ochr. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Dim | | The exchange and protection of personal data: Future partnership paper<br>24 Awst 2017 | Yn amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer model newydd o ran cyfnewid a diogelu data personol rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd, yn seiliedig ar ddull cyfredol yr Undeb Ewropeaidd. Mae'n awgrymu y gallai Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth barhau i gydweithio â rheoleiddwyr yr Undeb Ewropeaidd. |
| Dim | | Collaboration on Science and innovation: Future partnership paper<br>6 Medi 2017 | Mae'n amlinellu cynigion Llywodraeth y DU ar gyfer cytundeb gwyddoniaeth ac arloesi gyda'r UE. Noda y dylai'r cytundeb fod yn eang a galluogi meysydd ymchwil newydd. Noda y bydd angen trafod mynediad parhaus y DU i raglenni ymchwil ac arloesi'r Undeb Ewropeaidd, ynghyd â maint unrhyw gyfraniad ariannol y byddai'n rhaid i'r DU ei wneud i gymryd rhan ynddynt. Mae'n nodi y byddai angen cydbwyso'r cyfraniad hwn â blaenoriaethau gwariant eraill Llywodraeth y DU. Cyfeirir at gyfranogiad |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | | | Prifysgolion Cymru mewn rhaglenni a rhwydweithiau sy'n bodoli eisoes. |
| Dim | | **Foreign Policy, defence and development: Future partnership paper**<br>12 Medi 2017 | Mae'r papur yn cynnig partneriaeth yn y dyfodol gyda'r Undeb Ewropeaidd ar ddiogelwch ac amddiffyniad sy'n ehangach nag unrhyw gytundeb sydd gan yr Undeb Ewropeaidd ar hyn o bryd gyda gwlad trydydd parti. Mae'n nodi'r meysydd lle mae cydweithrediad ar amddiffyniad, diogelwch a datblygiad rhyngwladol ar hyn o bryd. |
| Dim | | **Customs Bill White Paper: legislating for UK's future customs, VAT and excise regimes**<br>9 Hydref 2017 | Mae'r **Papur Gwyn ar y Bil Tollau** yn nodi cynigion cychwynnol Llywodraeth y DU ar gyfer system annibynnol ar gyfer tollau tramor, TAW a thollau cartref ar ôl i'r DU adael yr Undeb Ewropeaidd. Mae'r Papur Gwyn yn cynnwys cynigion ar gyfer senario wrth gefn os na ddeuir i gytundeb â'r Undeb Ewropeaidd ar berthynas fasnachol ar gyfer y dyfodol. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Dim | | **Preparing for our future UK trade policy**<br>9 Hydref 2017 | Mae'r **papur gwyn ar y polisi masnach** yn nodi'r safbwyntiau a ffefrir gan Lywodraeth y DU ar gyfer polisi masnach newydd, ac yn nodi pa ddeddfwriaeth fydd ei hangen i weithredu'r polisi hwnnw. Mae'r papur yn nodi pum blaenoriaeth ar gyfer polisi masnachu newydd. |
| **European Council Conclusions** – casgliadau'r Cyngor ar y cynnydd a wnaed o ran y trafodaethau<br>20 Hydref 2017 | Daeth y Cyngor i'r casgliad na wnaed digon o gynnydd yn y trafodaethau ar y Cytundeb Ymadael i ddechrau ar drafodaethau ar y berthynas yn y dyfodol. Rhoddodd fanylion am yr agweddau hynny y mae angen bwrw ymlaen â nhw. Nododd hefyd y byddai paratoadau mewnol rhwng y 27 Aelod-wladwriaeth sy'n weddill ar gyfer trafodaethau ar berthynas fasnachol yn y dyfodol yn dechrau. | Dim | |
| Dim | | **Sanctions and Anti-Money Laundering Bill**<br>19 Hydref | Ystyrir bod y Bil yn angenrheidiol er mwyn sicrhau y gall y DU weithredu trefn sancsiynau ryngwladol yn dilyn ei hymadawiad o'r UE. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| Dim | | **Technical Note: citizen's rights administrative procedures in the UK -**<br>7 Tachwedd | Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ragor o fanylion ynghylch sut y bydd y system ar gyfer gwneud cais am breswyliaeth barhaol yn y DU ar gyfer dinasyddion yr Undeb Ewropeaidd yn gweithio. Anfonwyd hwn fel papur technegol at y Comisiwn Ewropeaidd. |
| Dim | | **Trade Bill 2018**<br>7 Tachwedd | Mae'r Bil yn rhoi pwerau i'r Gweinidog wneud newidiadau i gyfraith ddomestig y DU i weithredu Cytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Gaffael y Llywodraeth, ac unrhyw newidiadau angenrheidiol os bydd y DU yn dyblygu rhai o gytundebau presennol yr UE â gwledydd trydydd parti. Mae hefyd yn darparu camau i sefydlu Awdurdod Cymhorthion Masnach newydd, ac mae'n rhoi pwerau a dyletswyddau newydd mewn cysylltiad â data a gwybodaeth i Gyllid a Thollau Ei Mawrhydi o ran allforio a masnach. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| **Joint Report** gan y rhai sy'n trafod ar ran yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU ar gynnydd yn ystod Cam 1 o drafodaethau o dan EUU Erthygl 50 ar ymadawiad trefnus y DU o'r UE<br>8 Rhagfyr 2017 | Daeth yr Undeb Ewropeaidd a Llywodraeth y DU i gytundeb mewn egwyddor ar y meysydd o dan ystyriaeth yn ystod cam cyntaf y trafodaethau, gan alluogi sgyrsiau i symud i'r cam nesaf. Mae'r adroddiad yn nodi'r sefyllfa y cytunwyd arni ar amddiffyn hawliau dinasyddion yr Undeb yn y DU a dinasyddion y DU yn yr Undeb; y fframwaith ar gyfer mynd i'r afael â'r amgylchiadau unigryw yng Ngogledd Iwerddon; a'r setliad ariannol. | **Adroddiad ar y Cyd**<br>8 Rhagfyr 2017 | |
| **Nodyn Cyfathrebu gan y Comisiwn i'r Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50)** ar y sefyllfa o ran cynnydd y trafodaethau gyda'r DU o dan Erthygl 50 o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd<br>8 Rhagfyr 2017 | Yn seiliedig ar yr Adroddiad ar y Cyd gan y rhai sy'n trafod ar ran yr UE a Llywodraeth y DU, argymhellodd y Comisiwn wrth y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) y dylai ddod i gasgliad bod cynnydd digonol wedi'i wneud yng nghyfnod cyntaf y trafodaethau. | | |
| Dim | | **Prime Minister's Commitments to Northern Ireland**<br>8 Rhagfyr 2017 | Nododd y Prif Weinidog Theresa May chwe ymrwymiad allweddol i Ogledd Iwerddon a oedd yn ei harwain yn y trafodaethau â'r UE. |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| **Canllawiau y Cyngor Ewropeaidd**<br>15 Rhagfyr 2017 | Yn dilyn y penderfyniad bod digon o gynnydd wedi'i wneud, cyhoeddodd y Cyngor Ewropeaidd (Erthygl 50) ganllawiau drafft i symud i ail gam y trafodaethau, pan drafodir y cyfnod trosiannol a'r fframwaith ar gyfer y berthynas yn y dyfodol. | Dim | |
| **Supplementary negotiating directives**<br>20 Rhagfyr 2017 | Cyfarwyddebau atodol ar gyfer trafod cytundeb â'r DU sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer ei hymadawiad â'r UE. | Dim | |
| **Slides on Fisheries**<br>17 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar bysgodfeydd i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol . | Dim | |
| **Slides on Aviation**<br>17 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar hedfan i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol . | Dim | |
| **Slides on Governance**<br>19 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar lywodraethu i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol . | Dim | |
| **Slides on Security, Defence and Foreign Policy**<br>24 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar ddiogelwch, amddiffyn a pholisi tramor i hyrwyddo trafodaethau paratoadol | Dim | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| | mewnol ynghylch y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol . | | |
| Slides on Police and Judicial Cooperation in criminal matters<br>24 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar yr heddlu a chydweithrediad barnwrol i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol . | Dim | |
| Council (Article 50) negotiating directives on the transition period<br>29 Ionawr 2018 | Cyfarwyddebau gan y Cyngor Ewropeaidd yn egluro'r canllawiau ar gyfer trafod y cynllun pontio gyda'r DU | Dim | |
| Slides on a Level Playing Field<br>31 Ionawr 2018 | Cyflwyniad ar sicrhau amodau teg a chyfartal i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol. | Dim | |
| Slides on Services<br>6 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar wasanaethau i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol . | Dim | |
| Slides on International Agreements and Trade Policy<br>6 Chwefror 2018 | Cyflwyniad ar gytundebau rhyngwladol a pholisi masnach i hyrwyddo trafodaethau paratoadol mewnol ynghylch y berthynas rhwng yr UE a'r DU yn y dyfodol . | Dim | |
| Position Paper on Transitional Arrangements in the Withdrawal Agreement | Papur yn amlinellu'r testun cyfreithiol posibl yn ymwneud â'r cyfnod pontio, i'w gynnwys yn y | Dim. | |

| Papur yr Undeb Ewropeaidd | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd | Papur y DU | Cynnwys Papur yr Undeb Ewropeaidd |
|---|---|---|---|
| 7 Chwefror 2018 | Cytundeb Ymadael. | | |

## 2. Materion allweddol a fydd o ddiddordeb i'r Pwyllgor Materion Allanol

O gofio gwaith y Pwyllgor ar fonitro'r trafodaethau a **pherthynas Cymru â'r Undeb Ewropeaidd yn y dyfodol,** bydd y **cyfarwyddebau trafod** y bydd y Cyngor Ewropeaidd yn eu mabwysiadu ar gyfer y cyfnod pontio, ynghyd â sylwadau'r Ysgrifennydd Gwladol ar Ymadael â'r UE yn y cyswllt hwn, o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor. Mae cyfarwyddebau trafod y Cyngor yn nodi ei fod yn dymuno i'r cyfnod pontio ddod i ben ar 31 Rhagfyr 2020. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE **wedi dweud** y bydd hyd y cyfnod pontio'n gyfyngedig ond nid yw wedi pennu dyddiad. Yn **ei dystiolaeth** i Bwyllgor Ymadael â'r UE yn Nhŷ'r Cyffredin, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol ei fod o'r farn y gallai'r cyfnod pontio bara rhwng 21 a 27 mis. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol hefyd wedi dweud bod Llywodraeth y DU yn credu y dylai fedru trafod a llofnodi cytundebau masnach gyda gwledydd y tu allan i'r UE yn ystod y cyfnod pontio. Yng nghyfarwyddebau'r Cyngor Ewropeaidd, nodir y byddai'n rhaid i'r DU gael caniatâd yr UE cyn gwneud hynny. Un ystyriaeth allweddol i rai o fusnesau Cymru fyddai eu gallu i barhau i fanteisio ar gytundebau masnach rhwng yr UE a gwledydd eraill yn ystod y cyfnod pontio. Mae **Michel Barnier, sy'n cynrychioli'r UE yn y trafodaethau,** wedi dweud y byddai'r UE yn fodlon i'r DU barhau i fanteisio a bod ynghlwm wrth y cytundebau hyn, ond byddai angen i'r DU hefyd ddod i gytundeb ar wahân â'r gwledydd trydydd parti hyn.

Mater arall a fydd o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor yw effaith Brexit ar borthladdoedd Cymru, ac yn enwedig effaith unrhyw benderfyniad yn ymwneud â Gogledd Iwerddon, a'r ffin ag Iwerddon. Yn **ei dystiolaeth** i Bwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar yr UE ar 29 Ionawr, atebodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ymadael â'r UE ragor o gwestiynau am y mater a'r hyn a gytunwyd â'r UE yn yr **Adroddiad ar y Cyd ar y Cytundeb Ymadael**. Yn yr Adroddiad hwn, dywedodd y byddai'n well gan y DU osgoi ffin galed rhwng y ddwy wlad drwy ddod i gytundeb â'r UE ynghylch creu partneriaeth yn y dyfodol er mwyn gwneud hynny. Pe na bai'r DU a'r UE yn gallu cytuno ar ateb, byddai'r DU yn osgoi creu ffin rhwng Gogledd Iwerddon ac Iwerddon drwy sicrhau'r canlynol:

> *.. full alignment with those rules of the Internal Market of the Internal Market and the Customs Union which, now or in the future, support North-South cooperation, the all-island economy and the protection of the 1998 Agreement.*

Gofynnodd Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi ar yr UE i'r Ysgrifennydd Gwladol egluro ystyr 'full alignment'. Atebodd yntau y byddai'n sicrhau'r un 'canlyniadau rheoleiddiol' yn hytrach na chadw'r un testunau deddfwriaethol yn union. Dywedodd fod Llywodraeth y DU yn credu y gallai ymgymryd 'yn fwy effeithlon' â'r gwaith rheoleiddio ond na fyddai hynny'n arwain at ostwng safonau na chanlyniadau.

O ran Bil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael), bydd tynged Cymal 11 a chymalau eraill ynghylch datganoli o ddiddordeb arbennig i'r Pwyllgor. Disgwylir i Gyfnod Pwyllgor Tŷ'r Arglwyddi ddechrau ar 21 Chwefror. Mae **Llywodraeth DU** wedi ymrwymo i ddiwygio Cymal 11 o'r Bil yn Nhŷ'r Arglwyddi. Ar 1 Chwefror 2018, trefnwyd cyfarfod yng Nghaerdydd rhwng Prif Weinidog Cymru, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a David Lidington, Gweinidog yn Swyddfa'r Cabinet, er mwyn cynnal **'trafodaethau dwyochrog ynghylch y Bil Ymadael â'r UE.'**

# 3. Ymateb Llywodraeth Cymru

Ar 29 Ionawr **aeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i Dŷ'r Arglwyddi** i roi gwybodaeth am ei bryderon am Gymal 11 a darpariaethau eraill y Bil Ymadael â'r UE. Cyflwynwyd gwelliannau Llywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban i Gymal 11 eto yn ystod y cyfnod adrodd ond ni chawsant eu galw. Nid yw Llywodraeth y DU wedi cyflwyno'i gwelliannau ei hun eto i Gymal 11 ond mae wedi ymrwymo i wneud hynny yn Nhŷ'r Arglwyddi. Yn dilyn y cyfarfod yn Nhŷ'r Arglwyddi, **dywedodd** Mark Drakeford:

> *What we now need is that the UK Government will come up with a satisfactory amendment early enough to mean a fight is not necessary. Be in no doubt, however, that if such an amendment is not produced, we will do everything we can to defeat this aspect of the bill and to bring about the changes which protect the devolution settlement across the UK.*

Ar 1 Chwefror, trefnwyd cyfarfod yng Nghaerdydd rhwng Prif Weinidog Cymru, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a David Lidington, Gweinidog yn Swyddfa'r Cabinet, er mwyn cynnal **'trafodaethau dwyochrog ar y Bil Ymadael â'r UE.'**

Roedd Prif Weinidog Cymru wedi **dweud** eisoes ei fod yn gresynu nad oedd Llywodraeth y DU wedi cyflwyno unrhyw welliant i Gymal 11 sy'n gymal cwbl annerbyniol. Ei fwriad, meddai, oedd cyflwyno Bil Parhad i'r Llywydd erbyn diwedd mis Ionawr er mwyn iddi hi benderfynu yn ei gylch. Ar 17 Ionawr, derbyniodd y Cynulliad Cenedlaethol gynnig i nodi'r bwriad i gyflwyno Bil Parhad, a hynny'n unfrydol. Ar 29 Ionawr, **cyhoeddodd y BBC** fod Llywodraeth Cymru yn awr wedi cyflwyno Bil Parhad i'r Llywydd i holi a fyddai'r Cynulliad yn gallu pasio'r ddeddfwriaeth

Ar 18 Ionawr, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **welliannau i'r Bil Masnach**, a ddatblygwyd ar y cyd â Llywodraeth yr Alban. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn annerbyniol i'r Bil gyfyngu ar y cymhwysedd gweithredol y mae'n ei roi i Weinidogion Cymru a'r Alban, er nad yw'n cyfyngu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion y DU; ac mae'n rhoi pwerau cydamserol i Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig a gellir arfer y rhain heb ofyn caniatâd Gweinidogion Cymru a'r Alban. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn credu y dylai'r gwledydd datganoledig, yn ogystal â'r Ysgrifennydd Gwladol, gyfrannu at yr Awdurdod Rhwymedïau Masnach,

Yn ôl **datganiad ysgrifenedig Llywodraeth Cymru:**

> *ni all Llywodraeth Cymru na Llywodraeth yr Alban argymell bod eu deddfwriaethau yn rhoi eu caniatâd deddfwriaethol i'r Bil fel ag y mae.*

Ar 2 Chwefror 2018, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru **Y polisi masnach: materion Cymru,** sef y papur sefyllfa diweddaraf yn ei chyfres yn ymwneud â Brexit ac, i gyd-fynd â'r papur, cyhoeddwyd dadansoddiad o'r effaith economaidd gan Ysgol Fusnes Caerdydd, sef **EU Transition and Economic Prospects for Large and Medium Sized Firms in Wales**. Mae'r papur yn:

- Ailddatgan safbwynt Llywodraeth Cymru ynghylch y berthynas y dylai'r DU ei chael yn y dyfodol gyda'r UE, y Farchnad Sengl a'r Undeb Tollau;
- Nodi nad yw Llywodraeth Cymru wedi'i hargyhoeddi y byddai gadael yr Undeb Tollau a mabwysiadu polisi masnach annibynnol o fudd i Gymru ac nid yw Llywodraeth y DU wedi darparu digon o dystiolaeth i ddangos y byddai'n well i Gymru beidio â bod yn rhan o'r Undeb Tollau ;

- Galw ar Lywodraeth y DU i roi rhagor o fanylion am y modd y bydd cyfnod pontio neu weithredol yn gweithio ac i beidio â chyfyngu'n fympwyol ar hyd y cyfnod hwnnw;
- Dadansoddi, i raddau, y sectorau hynny yn economi Cymru y bydd tariffau neu rwystrau di-dariff rhwng y DU a'r UE yn fwyaf tebygol o effeithio arnynt. Y sectorau hynny y nodwyd eu bod yn wynebu'r risg mwyaf yn y cyswllt hwn yw'r diwydiant ceir, cemegau, dur, peirianneg drydanol, awyrofod, allforwyr cig oen Cymru, cynhyrchwyr pysgod cregyn a'r diwydiant prosesu bwyd;
- Nodi eto fod Llywodraeth Cymru yn credu y dylid galw am sefydlu Cyngor Gweinidogion y DU i drafod materion fel masnach ond, yn y cyfamser, y dylid sefydlu Cyd-bwyllgor Gweinidogion ar Fasnach Ryngwladol;
- Cynnwys yr egwyddorion y dylai Llywodraeth y DU lynu wrthynt wrth ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig ynghylch masnach, gan gynnwys yr angen i Lywodraeth y DU weithio gyda'r llywodraethau datganoledig i ddatblygu Polisi a Fframwaith Masnach y DU, ac y dylai ymgysylltu â'r llywodraethau datganoledig ynghylch y mandad ar gyfer trafodaethau ynghylch cytundebau masnach ac ymgynghori â nhw ar ddiwedd y trafodaethau masnach.